



Grŵp
**Llandrillo
Menai**

Strategaeth Lles y Staff a'r Dysgwyr 2021 – 2024



Lles **GLLM**
Wellbeing

Gwella Dyfodol Pobl

Cynnwys

2 Rhagair

- Prif Weithredwr

3 Rhagair

- Undeb y Myfyrwyr
- Undebau

4 Nod, Pwrpas a Rhychwant

4 Ein Blaenoriaethau Lles

5 Arweinyddiaeth, Diwylliant ac Ethos

5 Monitro Llwyddiant a Chefnogi Gwelliannau

6 Dulliau Cyfathrebu

- Dysgwyr
- Staff
- Rhieni, Gwarcheidwaid a'r Gymuned Leol a Chenedlaethol

6 Asiantaethau Partner a Chyfeirio

7 Rolau a Chyfrifoldebau

Rhagair - Prif Weithredwr

"Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi ymrwymo i greu amgylchedd dysgu a gweithio iach lle gall pob aelod o'n cymuned ffynnu. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth agos â'n dysgwyr, ein staff a'r gymuned ehangach i sicrhau bod cefnogi iechyd a lles cadarnhaol yn greiddiol i bopeth a wnawn. Rydym wedi ymroi i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd lles ac i ddarparu cyfleoedd a chefnogaeth i alluogi dysgwyr a staff i gryfhau eu gwytnwch a hunanofal, a chyrraedd eu potensial llawn.

Rydym yn cefnogi lles myfyrwyr yn ystod eu cyfnod pontio i'r coleg a thrwy gydol eu hamser gyda ni. Mae Tiwtoriaid Personol ac Aseswyr Seiliedig ar Waith yn darparu cefnogaeth academiaidd a bugeiliol tra bod Mentoriaid a staff y Gwasanaethau i Ddysgwyr yn darparu cefnogaeth arbenigol a gwasanaeth cyfeirio at asiantaethau partner. Rydym yn sicrhau bod ein polisïau a'n gweithdrefnau'n ystyried effaith iechyd a lles ar ymgysylltiad dysgwyr ac yn sicrhau nad yw unrhyw ddysgwr dan anfantais.

Yn ogystal â chefnogaeth gan reolwyr llinell a staff adnoddau dynol, mae Hyrwyddwyr Lles yn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd niferus sydd ar gael i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a gweithgareddau lles ar draws y Grŵp. Ar y cyd â gwasanaethau cymorth iechyd galwedigaethol, rydym yn darparu fframwaith cynaliadwy o gymorth i ddysgwyr a staff. Rydym yn gwrando ar bryderon ein staff ac yn meithrin amgylchedd diogel lle gall cydweithwyr drafod unrhyw fater sy'n ymwneud ag iechyd a lles.

Mae ein cynlluniau gweithredu ym maes lles yn nodi'r camau sy'n sail i'r gwaith o gyflawni ein strategaeth a'n blaenoriaethau lles a byddant yn esblygu'n barhaus dros amser. Can weithio gyda staff a dysgwyr, rwy'n wirioneddol gredu y bydd Grŵp Llandrillo Menai'n darparu amgylchedd lle adlewyrchir pob agwedd ar les ym mhopeth a wnawn."

Dafydd Evans

Prif Weithredwr



A handwritten signature in black ink, appearing to read 'D Evans'.

Rhagair - Undeb y Myfyrwyr

"Mae lles ac iechyd meddwl myfyrwyr yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd myfyrwyr, felly mae'n flaenoriaeth bwysig i'n Hundeb Myfyrwyr ac i Grŵp Llandrillo Menai. Mae rhoi lle blaenllaw i iechyd a lles myfyrwyr yn ein penderfyniadau a gweithio ochr yn ochr gyda'n myfyrwyr wrth lunio polisiau'n hanfodol i greu cymuned ddysgu gynrychioliadol.

Mae pob myfyriwr yn haeddu teimlo ei fod yn cael cefnogaeth ac mae gan bob myfyriwr lais y dylid gwrandao arno. Rydym am i'r coleg fod yn lle sy'n rhoi pwyslais ar gymuned ac ar weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod yr amgylchedd yn gefnogol a chynhwysol. Mae'r amgylchedd, bywyd cymdeithasol, cyrhaeddiad academiaidd a chyllid yn rhai agweddau ar brofiadau myfyrwyr a all effeithio ar iechyd a lles ac rydym wedi bod yn awyddus i'w cydnabod yn y Strategaeth hon. Mae pawb yn profi iechyd meddwl yn wahanol, ac felly mae angen dull arnom sy'n darparu ar gyfer myfyrwyr ag ystod amrywiol o anghenion ac yn rhoi cefnogaeth iddynt. Mae ein Llysgenhadon Actif wedi bod yn wych o ran codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd lles corfforol a chadw'n heini. Mae'r newid i Lysgenhadon Lles yn adlewyrchu ymrwymiad y Grŵp i barhau i adeiladu ar y gwaith gwych a wnaed hyd yma sy'n cael ei gydnabod yn y gwobrau niferus mae Undeb y Myfyrwyr wedi eu hennill am gefnogi ein myfyrwyr.

Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda'r myfyrwyr, y staff a'r timau rheoli i gadw golwg ar ein cynnydd ac i wneud yn siŵr fod iechyd meddwl a lles yn parhau i gael blaenoriaeth wrth i ni weithio gyda'n gilydd i wella profiadau cyffredinol y myfyrwyr."

Will Prys-Jones
Llywydd AU Undeb y
Myfyrwyr
Coleg Menai a Meirion-
Dwyfor

Terry Tuffrey
Llywydd AB Undeb y
Myfyrwyr
Coleg Meirion-Dwyfor

Derwen Fay
Llywydd AB Undeb y
Myfyrwyr
Coleg Llandrillo

George Russell
Llywydd AB Undeb y
Myfyrwyr
Coleg Llandrillo

Rhagair - Undebau

"Mae lles staff o'r pwys mwyaf i lwyddiant parhaus y Grŵp. Cyfrifoldeb a blaenoriaeth pawb yw sicrhau eu bod hwy a'u cydweithwyr yn y Grŵp yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu bod yn cael eu hysgogi a'u bod yn cael yr holl gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i wneud eu gwaith yn effeithiol ac i gyflawni eu dyheadau gyrfaol. Drwy weithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws y Grŵp, mae'r strategaeth hon yn rhoi lle blaenllaw i les staff yn y penderfyniadau a fydd yn ein barn ni yn sicrhau llwyddiannau parhaus i staff ac felly i'r Grŵp.

Bydd eich Undebau'n gweithio mewn partneriaeth agos â'r Coleg i sicrhau bod eich barn yn cael ei chlywed, a bod camau effeithiol yn cael eu cymryd i wella pob agwedd ar eich lles. Felly byddwn yn rhan o grwpiau llywio fydd yn gwneud i bethau ddigwydd ac yn monitro eu llwyddiant.

Dim ond drwy weithio gyda'n gilydd y gallwn ddeall yr heriau lles rydym i gyd yn eu hwynebu, a mynd ymlaen i lunio, gweithredu a monitro atebion creadigol i sicrhau ein bod i gyd yn ffynnu ac yn mwynhau gweithio yng Ngrŵp Llandrillo Menai. Edrychwn ymlaen at gefnogi'r strategaeth hon a sicrhau bod eich iechyd a'ch lles yn parhau'n flaenoriaeth."

Mark Davies
Cadeirydd Unsain

Cathy Smith
Cynrychiolydd NEU y Grŵp

Justin McCoy
Dave Roberto
Simon Evans
Cadeiryddion UCU

John Owen
Cynrychiolydd UCAC y
Grŵp

Nod, Pwrpas a Rhychwant

Er mwyn cyflawni ei nodau strategol, mae Grŵp Llandrillo Menai'n sylweddoli ei bod yn hollbwysig ei fod yn defnyddio dull cynhwysol o ddarparu cymorth iechyd a lles rhagorol i'w staff a'i fyfyrwyr ar draws yr holl sefydliad. Mewn partneriaeth ag undebau'r myfyrwyr a'r staff, bydd y Grŵp yn adolygu ei arferion gwaith yn gyson er mwyn darparu dull agored a chynhwysol o ymdrin â lles. Drwy hyn gall unigolion gael gwybodaeth ac arweiniad, ac ymgysylltu â chyfleoedd i wella eu lles ymhellach, meithrin gwytnwch a chyrraedd eu potensial llawn.

Ein Blaenoriaethau Lles

Can roi sylw i adborth staff a dysgwyr, blaenoriaethau Lles cychwynnol y Grŵp yw:

Byddwn yn cefnogi eich Lles Emosiynol a Chymdeithasol drwy:

- Godi ymwybyddiaeth am iechyd meddwl a lles
- Darparu cymorth ac arweiniad arbenigol gan dîm o staff ymroddedig
- Cynnig mynediad i wasanaethau cwnsela a chymorth proffesiynol
- Datblygu cyfleoedd ar gyfer trafodaethau agored am les
- Datblygu apiau a phecynnau cymorth i hyrwyddo lles, hunanofal a gwytnwch

Byddwn yn eich cynorthwyo i fod yn iach a Heini drwy:

- Ddynodi a datblygu tîm o Hyrwyddwyr Lles i ddarparu a hyrwyddo cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau lles cymdeithasol
- Darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a sesiynau ffitrwydd
- Darparu cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned
- Cynnig dewisiadau bwyta ac yfed iach ar bob safle
- Hyrwyddo gweithgareddau corfforol

Byddwn yn eich cynorthwyo i gyfrannu tuag at Amgylchedd Cynaliadwy drwy:

- Hyrwyddo iechyd Amgylcheddol
- Darparu arweiniad ar sut i fod yn amgylcheddol gynaliadwy
- Darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu awyr agored
- Datblygu a hyrwyddo dewisiadau teithio iach
- Lleihau ein defnydd o blastig untro

Byddwn yn eich cynorthwyo i Gadw'n Ddiogel drwy:

- Hyrwyddo Diogelu ym mhopeth a wnawn
- Darparu cymorth personol i ddysgwyr a staff yn ystod unrhyw absenoldeb
- Darparu gwybodaeth a chefnogaeth ar sut i gael perthynas iach â phobl
- Gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau arbenigol eraill i gynnig cyngor a chefnogaeth, e.e. ar gamddefnyddio sylweddau
- Hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael a darparu gwiriadau iechyd ar gyfer cyflyrau iechyd cronig posibl



Arweinyddiaeth, Diwylliant ac Ethos

Drwy uwch dîm rheoli ymroddedig a brwdfrydig, bydd adnoddau ar gael i gyflawni'r Strategaeth a'r blaenoriaethau Lles. Atgyfnerthir yr ymroddiad hwn i les drwy strwythurau rheoli'r Grŵp er mwyn sicrhau llwyddiant. Mae rheolwyr ar draws y Grŵp, a staff y Gwasanaethau i Ddysgwyr a'r adran Adnoddau Dynol yn hyrwyddo hyfforddiant Lles, cynlluniau byw'n iach a phartneriaethau effeithiol yn gyson ac yn hyrwyddo cyfleoedd hygyrch a chynhwysol i bawb ymgysylltu ag ystod o wasanaethau a gynigir yn y Grŵp ac yn allanol.

Mae'r Strategaeth Lles hon yn seiliedig ar y sylweddoliad mai cyfrifoldeb personol pawb yw gofalu am eu hiechyd a'u Lles eu hunain, ond hefyd i gefnogi cydweithwyr a dysgwyr ar draws y Grŵp i wneud yr un peth – gan arwain drwy esiampl. Bydd arweinwyr y Grŵp yn sefydlu adnoddau ac yn darparu cyfeiriad ac arweiniad, ond y cyfrifoldeb personol hwn a'r awydd i barchu ein gilydd ac i helpu a chefnogi unigolion eraill fydd yn sicrhau cynaliadwyedd tymor hir y Grŵp.

Gwerthoedd y Grŵp, sef Tegwch, Ansawdd, Arloesedd a Phroffesiynoldeb yw sail popeth a wnawn i gefnogi ein dysgwyr a'n staff ac i alluogi datblygiad llwyddiannus y Strategaeth Lles hon.

Mae angen cyfathrebu effeithiol ac ymwybyddiaeth o sut mae polisiau a gweithdrefnau'n cefnogi Lles er mwyn cefnogi'r broses o gael Coleg iach yn llawn. Mae'r Grŵp yn defnyddio dulliau amrywiol i gyfathrebu ac ymgysylltu â staff a dysgwyr ac yn adolygu ei holl bolisiau a'i arferion gyda lles pawb mewn golwg.

Mae ein diwylliant diogelu yn darparu cyfleoedd a lle diogel i ddysgwyr a staff drafod materion sy'n peri pryder ac i geisio gwybodaeth, arweiniad a chefnogaeth ynghylch unrhyw fater sy'n ymwneud â Lles.

Drwy arweinyddiaeth, cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol a thrwy ddangos parch at ein gilydd gallwn fonitro ac adolygu sut rydym yn parhau i gynnal diwylliant cefnogol cadarnhaol ac yn annog a grymuso holl aelodau cymuned Grŵp Llandrillo Menai i ddatblygu gwytnwch ac i ffynnu mewn amgylchedd hapus ac iach.



Monitro Llwyddiant a Chefnogi Gwelliannau

Sefydlwyd grwpiau llywio Lles i ystyried, llunio, gweithredu ac adolygu cynlluniau Lles sy'n cefnogi'r strategaeth hon a'i blaenoriaethau. Cyfrifoldeb Rheolwr y Prosiect Lles, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Ddysgwyr a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol fydd goruchwyllo'r gwaith o weithredu'r Strategaeth ac adrodd fel y bo'n briodol i'r Tîm Polisi, y Tîm Strategol a'r Tîm Rheoli, i grwpiau allweddol eraill ar draws y Grŵp, ac i'r Pwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau.

Bydd Llywyddion Undeb y Myfyrwyr a'r Swyddog AU yn cyflwyno adroddiad Lles yng Nghynhadledd Flynyddol y Dysgwyr ac yn darparu adroddiad cynnydd i'r Cynrychiolwyr Dosbarth.

Rhan o'r prosesau monitro fydd gofyn am farn y dysgwyr a bydd eu hadborth yn cyfrannu at y broses o adolygu a datblygu'r Strategaeth Lles. Defnyddir Asesiad o'r Effaith ar Iechyd i adolygu ac asesu lefelau ymgysylltiad y dysgwyr a'r staff ac i fesur effaith y canlyniadau.

Dulliau Cyfathrebu

Mae cyfathrebu effeithiol yn hanfodol i lwyddiant y strategaeth hon. Bydd y Grŵp yn ceisio datblygu a defnyddio amrywiaeth eang o atebion i hyrwyddo strategaeth, blaenoriaethau, camau gweithredu a llwyddiannau'r Strategaeth Lles, gan gynnwys:

Dysgwyr

- Hwb Lles
- Calendr Lles
- Cynlluniau Lles Personol
- Y Fframwaith Tiwtora Personol a'r Calendr Cyfoethogi Profiadau Dysgwyr
- eDRAC y Dysgwyr
- Podlediadau Undeb y Myfyrwyr
- Cyfrifon Lles Cyfryngau Cymdeithasol GLIM
- Cylchlythyr y Pennaeth
- Cylchlythyr Lles Dysgu Seiliedig ar Waith
- Astudiaethau Achos i gynnwys Podlediadau a Flogiau fydd yn cael eu dangos ar sianeli cyfryngau cymdeithasol GLIM

Staff

- Bwletinau'r Prif Weithredwr
- Hwb Lles
- Calendr Lles
- Darparu rhaglen hyfforddi ar Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl
- Cylchlythyr i rannu astudiaethau achos ac arferion gorau
- Rhestr o staff cefnogi pob campws
- Hyrwyddo'r gweithgareddau drwy'r dudalen 'Ar Fy Nghampws Heddiw' ar Borth y Grŵp

Rhieni, Gwarcheidwaid a'r Gymuned Leol a Chenedlaethol

- Negeseuon ar y Cyfryngau Cymdeithasol
- Datganiadau i'r wasg ynghylch gweithgareddau a chyflawniadau



Asiantaethau Partner a Chyfeirio

Wrth gyflawni'r Strategaeth Lles hon bydd y Grŵp yn gweithio mewn partneriaeth gyson ag arbenigwyr lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gwasanaethau cymorth hyn yn datblygu'n barhaus, a cheir gwybodaeth fanwl amdanynt ar yr Hwb Lles. Yma enghreifftiau o asiantaethau partner allweddol:

- | | |
|--|--|
| <ul style="list-style-type: none">• Gwasanaethau CAMHS arbenigol• Gwasanaethau Meddygon Teulu• Mind• Parabl• CAIS• DAWN• Cydlynwyr LACE• Y tîm Plant mewn Angen• TAF (Team Around the Family)• Y Tîm Diogelu Oedolion• Y Tîm Anawsterau Dysgu• Y Tîm Asesu Gofal Oedolion• Arolygiaeth Gofal Cymru• Gweithredu dros Blant | <ul style="list-style-type: none">• Barnardos• Y Tîm Tai• GISDA• Hafal• Grwpiau Gweithredol Diogelu Integredig Lleol• Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd• LGBTQ+• Y Samariaid• Gyrfa Cymru• Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaeth Prawf• Byrddau Contest a Prevent• Swyddog Cyswllt Gofal Sylfaenol• Iechyd Cyhoeddus Cymru |
|--|--|

Rolau a Chyfrifoldebau

Mae'r Strategaeth Lles hon yn seiliedig ar y sylweddoliad mai cyfrifoldeb personol pawb yw gofalu am eu hiechyd a'u lles eu hunain, ond hefyd i gefnogi cydweithwyr a dysgwyr ar draws y Grŵp i wneud yr un peth. Fodd bynnag, ni all neb wneud hyn ar ei ben ei hun, felly mae'r Strategaeth Lles hon yn esbonio pa rolau sydd â chyfrifoldebau lles allweddol er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu helpu eu hunain ac eraill:

Yr uwch reolwyr

Mae'r uwch reolwyr yn fodelau rôl hollbwysig, ac mae rheolwyr llinell a gweithwyr yn fwy tebygol o ddefnyddio ymyriadau lles os ydynt yn gweld eu harweinwyr yn gwneud hynny. Mae gan uwch reolwyr yr awdurdod a'r dylanwad i sicrhau bod lles yn flaenoriaeth strategol sy'n rhan annatod o weithrediadau a diwylliant y Grŵp o ddydd i ddydd. Mae gan uwch reolwyr ddyletswydd i sicrhau bod materion lles ar frig yr agenda mewn cyfarfodydd unigol a chyfarfodydd tîm.

Y rheolwyr

Y rheolwyr llinell sy'n gyfrifol am lawer o'r gwaith o reoli lles staff o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys gweithredu cynlluniau i reoli straen, sylwi ar arwyddion sy'n rhoi rhybudd cynnar bod pobl dan straen, gwneud addasiadau cefnogol yn y gwaith, a meithrin perthynas gadarnhaol â phobl

Mae rheolwyr yn fodelau rôl pwysig o ran meithrin ymddygiad iach yn y gwaith, a rhaid iddynt fod â'r gallu a'r hyder i reoli pobl yn gywir. Mae'n ddyletswydd ar reolwyr i wrando ar eraill ac i fyfyrio ar eu hymddygiad a'u gallu eu hunain gan geisio datblygu eu hunain ymhellach fel y bo'n briodol.

Mae angen i reolwyr ddeall yr effaith y mae eu dull rheoli yn ei gael ar staff ac ar ddiwylliant ehangach y Grŵp, ac i addasu eu dull a'u hymddygiad fel y bo'n briodol.

Adnoddau Dynol

Mae gan y tîm Adnoddau Dynol rôl arweiniol i'w chwarae wrth lywio'r agenda iechyd a lles. Byddant yn cefnogi'r uwch reolwyr i sefydlu'r strategaeth lles a'i gwneud yn flaenoriaeth ac yn integreiddio arferion lles yng ngweithrediadau beunyddiol y Grŵp.

Bydd y tîm Adnoddau Dynol yn cyfleu manteision gweithleoedd iach i reolwyr llinell, sydd fel arfer yn gyfrifol am weithredu polisïau'n gysylltiedig â rheoli pobl a lles.

Bydd y tîm Adnoddau Dynol yn gweithio'n agos gyda phob rhan o'r busnes ac yn darparu canllawiau ymarferol i sicrhau bod polisïau ac arferion yn cael eu gweithredu'n gyson a chydymdeimlad.

Rheolwr y Prosiect Lles

Drwy sefydlu cysylltiadau effeithiol ar draws y Grŵp a chydymdeimlad allanol, bydd deiliad y swydd hon yn rheoli portffolio o brosiectau lles er mwyn cefnogi dysgwyr, hyfforddeion a staff. Bydd Rheolwr y Prosiect Lles yn llunio strategaeth, yn cytuno ar gamau gweithredu a chanlyniadau gan eu cyflawni, adolygu eu heffaith a rhoi cynllun ymarferol ar waith i sefydlu cynlluniau cynaliadwy. Bydd y swydd hon yn golygu arwain a chydweithio â phartneriaid er mwyn gwerthuso cynigion ar gyfer prosiectau newydd, gwneud argymhellion a'u rhoi ar waith.



Rolau a Chyfrifoldebau

Y Tîm Iechyd a Diogelwch

Bydd y Tîm Iechyd a Diogelwch yn darparu cyngor iechyd a diogelwch proffesiynol ar bob agwedd ar les y Grŵp, o adolygu dyluniad adeiladau newydd i asesiadau risg unigol.

Caer Health

Mae Caer Health yn darparu cymorth iechyd galwedigaethol annibynnol arbenigol i'r Grŵp ar iechyd galwedigaethol sy'n gangen arbenigol o feddygaeth sy'n canolbwyntio ar iechyd yn y gweithle. Mae Caer Health yn gweithio'n agos gyda'r adran AD, rheolwyr a staff i gefnogi pob agwedd ar les.

CareFirst

Care First yw'r darparwr a ddewiswyd gan y Grŵp i ddarparu gwasanaethau lles dros y ffôn ac ar-lein i staff ar bob agwedd ar les, gan gynnwys cwnsela. Mae ar gael i bawb heb atgyfeiriad.

Y Darlithwyr a'r staff addysgu

Mae'r sawl sy'n ymwneud ag addysgu (o fewn cyfyngiadau a therfynau eu swyddi) yn gyfrifol am gynllunio'r cwricwlwm yn effeithiol i gynnwys llais a lles y dysgwyr. Mae'r aelodau staff hyn yn gyfrifol am sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau cymorth i ddysgwyr er mwyn gallu darparu cymorth ar unwaith ac atgyfeirio dysgwyr sydd ag ymholiadau neu sy'n dangos arwyddion o fod angen cymorth.

Y Gweithwyr

Mae'r holl staff yn gyfrifol am eu lles eu hunain, ac am gefnogi lles cydweithwyr a dysgwyr. Mae'r staff yn gyfrifol am gymryd rhan mewn cynlluniau a thrafodaethau lles, boed hynny ar lefel Grŵp, tîm neu unigol, ac am ddarparu adborth i bartïon cyfrifol eraill ar les.

Y Gwasanaethau i Ddysgwyr

Mae'r tîm hwn o arbenigwyr ymroddedig yn gyfrifol am gysylltu ag asiantaethau partner a darparu gwasanaeth cyfeirio, cynghori ac arwain i bawb sydd ei angen.

Swyddogion Diogelu

Mae'r swyddogion hyfforddedig hyn yn gyfrifol am nodi trothwyon niwed sylweddol a phryderon diogelu a'u huwchgysylltu'n unol â gweithdrefnau adrodd y Grŵp.

Mentoriaid

Bydd mentoriaid yn cynghori a chefnogi dysgwyr i ddatblygu technegau hunanofal gan ddefnyddio ystod o apiau a thechnegau cymorth, ac yn rhoi cymorth ac arweiniad ar amrywiaeth o faterion lles.

Cwnselwyr Myfyrwyr

Mae Cwnselwyr Myfyrwyr yn darparu ymyriadau therapiwtig proffesiynol i gefnogi dysgwyr drwy gydol eu hastudiaethau. Gwneir atgyfeiriadau i wasanaethau priodol pan fo angen ymyriadau hirdymor.



